# Is-adran Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru

# Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## PYSGODFA GOCOS CILFACH TYWYN

## TRWYDDED I GYMRYD COCOS o'r Ardal a ddiffinnir isod ar gyfer y cyfnod trwyddedu 2025/2026

**MAE'R DRWYDDED** hon yn rhoi hawl i Ddeiliad y Drwydded bysgota am gocos a chymryd cocos o'r ardal a ddiffinnir yn yr Atodlen i'r drwydded hon 'Cilfach Tywyn', yn ddarostyngedig i'r Amodau a nodir isod.

**Bydd terfyn y ddalfa ddyddiol yn 350kg hyd nes bydd hysbysiad pellach.**

**AMODAU:**

1. Dim ond Deiliad y Drwydded sy'n cael pysgota am unrhyw gocos o'r ardal a'u cymryd o'r Ardal. Ni chaiff Deiliad y Drwydded gael ei gynorthwyo gan unrhyw berson arall ac ni ellir trosglwyddo'r Drwydded hon i unrhyw berson arall.

2. Caniateir i Ddeiliad y Drwydded bysgota am gocos a chymryd cocos o unrhyw bysgodfa o fewn yr Ardal nad yw wedi ei chau yn unol â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.

3. Mae'r drwydded hon yn ddilys ar bysgodfa gocos gyhoeddus Cilfach Tywyn o 00:01 ar 1 Mehefin 2025 tan 23:59 ar 31 Mai 2026 oni bai ei bod wedi'i therfynu neu ei thynnu'n ôl cyn y dyddiad hwnnw.

4. Rhaid i ddeiliad y drwydded fod â thrwydded ddilys a bod yn barod i gael ei holi gan Swyddog Llywodraeth Cymru neu unrhyw Swyddog Gorfodi Morol ar alw am ei fanylion personol er mwyn cadarnhau pwy ydyw a bod ganddo drwydded ddilys gan Lywodraeth Cymru.

5. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gyflwyno adroddiad llawn a gwir ("ffurflen dalfa") o'r cocos a gymerwyd o'r Ardal yn ddyddiol i'r porth pysgodfeydd ar-lein https://www.llyw.cymru/cais-am-drwydded-bysgota **BOB DYDD**. Rhaid i'r ffurflen dalfa nodi dyddiad, lleoliad a meintiau (mewn cilogramau) pwysau byw y cocos a gymerwyd o'r Ardal. Os yw'n briodol, rhaid i'r ffurflen dalfa nodi nad oedd unrhyw gocos wedi'u cymryd.

6. Ni chaiff unrhyw un bysgota am gocos, cymryd cocos neu dynnu cocos rhwng hanner awr ar ôl machlud haul ar unrhyw ddiwrnod a hanner awr cyn codiad yr haul y diwrnod canlynol.

7. **Cludo cocos ymaith mewn cwch yn unig**. Cynhwysir yr amod hwn er mwyn gwarchod cynefinoedd o fewn y bysgodfa ac er mwyn atal difrod bwriadol neu ddi-hid i'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE (92/43/EEC).

   Fodd bynnag, gall deiliaid trwydded a oedd â thrwydded Cilfach Tywyn CNC yn flaenorol, gael mynediad i'r gwely mewn cerbyd os nad ydynt yn berchen ar gwch addas. Bydd yr eithriad hwn ar waith am gyfnod o ddwy blynedd.

   Rhaid i ddeiliaid trwyddedau sy'n defnyddio'r eithriad hwn roi manylion cofrestru hyd at uchafswm o ddau gerbyd y maent yn bwriadu eu defnyddio i gyrraedd y gwely cocos i staff Llywodraeth Cymru, cyn cychwyn casglu cocos. Ar gyfer cerbydau cofrestredig, rhaid i hyn gynnwys rhif cofrestru'r cerbyd. Ar gyfer cerbydau nad ydynt wedi eu cofrestru, rhaid darparu Rhif Adnabod y Cerbyd (VIN), gwneuthuriad, model, a lliw y cerbyd. Y cerbydau yr adroddwyd amdanynt wrth staff Llywodraeth Cymru yn unig a ganiateir eu defnyddio i gyrraedd y gwelyau cocos.

8. **Gellir casglu ar Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Mercher a Dydd Iau YN UNIG.**

9. Rhaid casglu â llaw neu â rhaca a rhidyll â rhwyll maint sefydlog 17.5mm neu fwy yn unig (yn unol â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgodfeydd Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024. Gwaherddir defnyddio bagiau rhwyd. Rhaid rhoi cocos sy'n rhy fach yn ôl yn y gwely ar unwaith mewn man mor agos â phosibl i'r lle y cymerwyd y cocos hynny ohono.

10. Os ydych yn bwriadu cerdded ar y gwelyau rhaid i chi nodi eich dalfa o'r cwch gosodoch eich cocos yn y man glanio.

11. Ni ddylid defnyddio bagiau tunnell i gludo cocos o'r gwelyau cocos i'r lan.

12. **Rhaid defnyddio sachau cocos hyd at faint o 25kg (tua 45cm x 60cm) i dynnu cocos o'r gwelyau cocos.**

13. **Mae angen i dagiau adnabod ar gyfer pob sach fod wedi'u clymu'n ddiogel i'r sachau cocos a rhaid i'r tagiau arddangos yn glir rhif trwydded deiliad y drwydded.**

14. Ni chaniateir cychod sy'n mesur dros 10 metr o hyd o fewn pysgodfa gocos Aber Afon Llwchwr/Cilfach Tywyn i symud cocos ymaith.

15. Ystyrir hefyd bod unrhyw ddŵr yn y bysgodfa hon yn Gategori C. Bydd unrhyw gwch a ddefnyddir mewn unrhyw ffordd mewn cysylltiad â chludo pobl, offer neu gargo i gocosa yn yr ardal, yn gweithredu'n fasnachol. Felly, rhaid i unrhyw gwch o'r fath sy'n gweithredu at ddibenion masnachol gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol y DU ar Longau Masnach. (Gweler Atodiad D) Mae rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth hon i'w gweld ar wefan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA),

    https://www.gov.uk/government/organisations/maritime-and-coastguard-agency neu yn y dolenni isod:

OS2016/354 - Rheoliadau Llongau Masnach (Cychod Gwaith Bach a Chychod Peilot) (Diwygio) 2016 http://www.legislation.gov.uk/uksi/2016/354/pdfs/uksi_20160354_en.pdf!!

OS1998/1609 - Rheoliadau Llongau Masnach (Cychod Gwaith Bach a Chychod Peilot) - gweler y diwygiadau uchod
http://www.legislation.gov.uk/uksi/1998/1609/made

MSN 1892 – The workboat code edition 2 (ar gyfer cychod a adeiladwyd ar ôl 31 Rhagfyr 2018)
https://www.gov.uk/government/publications/msn-1892-m-the-workboat-code-edition-2

MGN 280 - Small Vessels in Commercial Use for Sport or Pleasure, Workboats and Pilot Boats – Alternative Construction Standards (ar gyfer cychod a adeiladwyd cyn 31 Rhagfyr 2018)
https://www.gov.uk/government/publications/mgn-280-small-vessels-in-commercial-use-for-sport

OS1997/2962 – Llongau Masnach a Llongau Pysgota (Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith)
http://www.legislation.gov.uk/uksi/1997/2962/made

MIN 538 – Authorisation of certifying authority
https://www.gov.uk/government/publications/min-538-amendment-6-m-codes-of-practice-authorisation-of-certifying-authorities

The Workboat Code - Safon dechnegol gweithgor y diwydiant - Cod Ymarfer ar gyfer cychod gwaith bach sy'n cael eu defnyddio'n fasnachol ar y môr a phob cwch peilot.
Workboat Code - GOV.UK (www.gov.uk)
The Workboat Code Edition 3 - (ar gyfer cychod a adeiladwyd ar ôl 13 Rhagfyr 2023).
The Workboat Code Edition 3- GOV.UK (www.gov.uk) Dylid darllen y Cod hwn ar y cyd ag OS 2023 Rhif 1216, Rheoliadau Llongau Masnach (Cychod Gwaith Bach a Chychod Peilot) 2023.
The Merchant Shipping (Small Workboats and Pilot Boats) Regulations 2023 (deddfwriaeth.gov.uk)

Rhaid i gychod presennol sydd wedi'u hardystio o dan y Cod Brown, ei safon gyfatebol a gyhoeddwyd yn yr Atodiad technegol i MGN 280(M), neu Workboat Code Edition 2, Amendment 1 The workboat code edition 2 - amendment 1 - GOV.UK (www.gov.uk) fodloni gofynion Workboat Code Edition 3 erbyn archwiliad adnewyddu nesaf y cwch neu dair blynedd ar ôl dyddiad dod i rym y Cod, pa un bynnag sydd hwyraf, ac eithrio pan fo cyfeiriadau at ofynion blaenorol wedi'u nodi yn benodol o fewn adrannau unigol o'r Cod caniateir iddynt gydymffurfio â gofynion o'r fath.
https://www.gov.uk/government/publications/msn-1892-m-the-workboat-code-edition-2

MIN 698 (M) Workboat Code Edition 3 – Standards and Guidelines for Best Practice. Dylid darllen yr hysbysiad hwn gyda The Workboat Code Edition 3. MIN 698 (M) Workboat code edition 3 – standards and guidelines for best practice - GOV.UK (www.gov.uk)

16. Rhaid i dystiolaeth o gydymffurfio â deddfwriaeth MCA a) gael ei harddangos ar y cwch sy'n cael ei ddefnyddio neu b) rhaid i dystysgrif awdurdodi gan yr MCA fod ar gael bob amser wrth gasglu a chael ei chyflwyno i'r Swyddogion Gorfodi Morol i'w harchwilio ar alw.


17. Terfynu: Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgresiwn absoliwt, dynnu'r Drwydded hon yn ôl ar unrhyw adeg. Lle y bo modd, rhoddir rhybudd ymlaen llaw am dynnu Trwydded yn ôl, ond o dan unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ganlyn, caniateir tynnu'r Drwydded hon yn ôl ar unwaith (h.y. heb roi rhybudd ymlaen llaw)-

a. mewn argyfwng;
b. os yw Deiliad y Drwydded yn torri unrhyw un o amodau'r Drwydded hon;
c. pe bai'n dod i'r amlwg bod y gweithgareddau a awdurdodir gan y Drwydded hon yn arwain, neu'n debygol o arwain, at effaith sylweddol ar unrhyw Safle Morol Ewropeaidd (fel y'i diffinnir gan Reoliad 8(4) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (O.S. 2010/490).

18. Mae torri unrhyw un o amodau'r Drwydded hon yn drosedd a bydd yn arwain at derfynu'r Drwydded hon ar unwaith.

Rhaid i unrhyw un sy'n pysgota am gocos, sy'n eu cymryd (neu sy'n ceisio pysgota neu gymryd cocos) neu sy'n eu symud ymaith gan ddibynnu ar y Drwydded, hefyd gydymffurfio â phob deddfwriaeth gymwys arall sy'n berthnasol i'r gweithgarwch hwnnw yn y lle hwn, gan gynnwys Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgodfeydd Cocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024, a phob deddfwriaeth gymwys arall (gan gynnwys deddfwriaeth yn ymwneud â physgodfeydd a'r amgylchedd).

[Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024 (deddfwriaeth.gov.uk)](https://www.legislation.gov.uk)
https://www.llyw.cymru/deddfwriaeth-pysgodfeydd-glannau-de-cymru



**Julian Bray, Pennaeth Polisi a Llywodraethu Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru**.

**Dyddiad: 2 April 2026.**

Caiff y Drwydded hon ei chyhoeddi o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru yn unol â Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024.

Noder:

1. Caiff y Drwydded hon ei chyhoeddi yn unol â 'Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024'.

2. Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gydymffurfio â phob deddfwriaeth gymwys arall (gan gynnwys Is-ddeddfau'r Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru gynt a deddfwriaeth gymwys arall (gan gynnwys deddfwriaeth yn ymwneud â physgodfeydd a'r amgylchedd)) a chael unrhyw ganiatâd a/neu awdurdodiadau angenrheidiol eraill cyn pysgota am gocos a chymryd unrhyw gocos o'r Ardal a ddiffinnir yn yr Atodlen i'r Drwydded hon.

3. **Nid yw'r Drwydded yn awdurdodi'r defnydd o gerbydau ar y tir sy'n ffinio â'r Ardal ac nid yw'n caniatáu mynediad i'r tir hwnnw fel arall ac eithrio'r rhai fel y nodir yn amod 7 uchod.** Nid yw'r awdurdodiad hwn yn eich amddiffyn rhag cael eich erlyn o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall. Nid oes iddo unrhyw effaith mewn perthynas ag unrhyw ddarpariaeth neu ofyniad cyfreithiol arall ac ni fydd yn eich amddiffyn rhag darpariaethau a gofynion o'r fath, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Traffig Ffyrdd 1988 neu unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymdrin â defnyddio cerbyd.

4. Nid yw'r drwydded hon yn darparu hawl mynediad/gadael dros dir/blaendraeth sy’n eiddo preifat. Cyfrifoldeb y Trwyddedai yw cael caniatâd perchnogion y tir/blaendraeth lle bo hynny'n briodol.

5. Yn ychwanegol at ddarpariaethau statudol eraill, mae'n bosibl y byddwch yn cyflawni trosedd os byddwch yn defnyddio cerbyd yn yr Ardal neu'r ardaloedd cyffiniol heb i chi gael caniatâd ymlaen llaw oddi wrth yr holl berchnogion tir perthnasol (ac unrhyw gyrff perthnasol eraill) sy'n berchen ar y tir rydych yn bwriadu teithio drosto. Os nad yw pob perchennog tir perthnasol wedi cynnal yr holl asesiadau sy'n ofynnol o dan unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy’n ymwneud â chadwraeth natur neu’r amgylchedd (er enghraifft, o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC)) cyn rhoi caniatâd i chi ddefnyddio eich cerbyd yn yr ardal benodedig, dylech nodi hefyd ei bod yn bosibl y byddwch yn dal i fod yn cyflawni trosedd hyd yn oed os byddwch wedi cael caniatâd y perchennog y tir.

6. Dylai deiliaid trwydded fod yn ymwybodol ei bod yn ofyniad cyfreithiol i gael Dogfen Gofrestru (y dogfennau symud gynt) gyda phob swp o gocos wrth iddo gael ei symud o'r ardal gynhyrchu, h.y. y gwely pysgod cregyn, neu pan gaiff ei roi ar y farchnad gyntaf. Yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 853/2004, rhaid llenwi'r Dogfennau Cofrestru a chynnwys manylion y casglwr, y gwely y casglwyd y cocos ohono a'r dyddiad, cyn i'r cocos gael eu cludo. Mae'r dogfennau hyn ar gael naill ai oddi wrth Gyngor Sir Abertawe sydd yn ardal Cilfach Tywyn neu Gyngor Sir Caerfyrddin gan ddefnyddio'r manylion cyswllt canlynol: Dylai deiliaid trwydded gysylltu â'r Tîm Diogelwch Bwyd, Cyngor Abertawe drwy ffonio 01792 635600 neu e-bostio foodandsafety@swansea.gov.uk. Gall deiliaid trwydded gysylltu hefyd â'r tîm iechyd cyhoeddus, Cyngor Sir Gâr drwy ffonio 01267 234567 neu e-bostio publichealth@carmarthenshire.gov.uk.

7. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu Gornifer Cocos y Gellir eu Cynaeafu ("HS") o Gocos o Gilfach Tywyn o **3144 tunnell** ar gyfer tymor 2025/2026. Pan fydd y Gornifer Cocos y Gellir eu Cynaeafu wedi'i gyrraedd, bydd yr ardal berthnasol yn cael ei chau gan Lywodraeth Cymru yn unol â 'Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024’.

8. Yn yr un modd, pe bai’n dod i’r amlwg y bydd y gweithgareddau a awdurdodir gan y Drwydded hon yn arwain, neu'n debygol o arwain, at effaith sylweddol ar unrhyw Safle Morol Ewropeaidd (fel y'i diffinnir gan Reoliad 8(4) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (O.S. 2010/490), bydd Llywodraeth Cymru yn cau'r bysgodfa.

9. Os bydd unrhyw Ardal yn cael ei chau i weithgarwch pysgota cocos, bydd hyn yn cael ei hysbysu yn y lle cyntaf gan Staff Gorfodi Llywodraeth Cymru sy'n bresennol yn y safle a chan hysbysiadau a osodir yn yr ardal honno. Bydd e-bost neu lythyr yn cael ei anfon at bob deiliad trwydded hefyd yn cadarnhau'r ardal sydd ar gau, a bydd yr

hysbysiad cau perthnasol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn: https://www.llyw.cymru/pysgodfeydd-mor-rhynglanwol

10. Gall casglu cocos fod yn beryglus ac mae elfen sylweddol o risg i ddiogelwch personol. Argymhellir yn gryf eich bod yn cynnal eich asesiad iechyd a diogelwch a'ch asesiad risg eich hun cyn ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Dylech dalu sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan sefydliadau sy'n bartneriaid i ni a chan sefydliadau swyddogol eraill. Ni all y canllawiau a gyhoeddir gynnwys popeth a'ch cyfrifoldeb chi yw cymryd unrhyw gamau sy'n sicrhau eich bod yn ddiogel.

11. Ni ddylid gadael bagiau o gocos ar y gwely cocos ar ôl gorffen eu casglu oherwydd y gellir eu hystyried yn rhai sydd wedi eu gadael ar ôl. Bydd unrhyw gocos sy'n cael eu gadael ar ôl yn cael eu dychwelyd i'r gwely.

12. Adeg cyhoeddi'r drwydded hon, mae'r ardal gasglu o fewn ardal aber Cilfach Tywyn wedi'i dosbarthu'n Ddosbarth C ar gyfer casglu cocos (C.edule).

    **Dosbarth C** (≤ 46000 *E. coli*/100g) - dim ond ar ôl iddynt gael eu hailosod am o leiaf ddau fis mewn ardal ailosod gymeradwy ac yna, lle y bo angen, ar ôl iddynt gael eu trin mewn canolfan buro, gan ailosod am o leiaf ddau fis mewn ardal ailosod gymeradwy Dosbarth A neu ar ôl iddynt gael eu trin â gwres mewn proses a gymeradwyir gan y Comisiwn Ewropeaidd, y caniateir gwerthu molysgiaid i'w bwyta gan bobl.

    Ym mhob achos, rhaid bodloni'r safonau iechyd yn Atodiad **III** o Reoliadau 853/2004 y Comisiwn Ewropeaidd a'r meini prawf microbiolegol a fabwysiadwyd o dan Reoliad 2073/2005 y Comisiwn Ewropeaidd. Rhaid peidio â chynhyrchu na chasglu molysgiaid mewn ardaloedd lle y gwaherddir hynny.

    **Gallwch weld y mapiau categoreiddio cyfredol drwy ddilyn y ddolen isod**

    Mapiau categoreiddio parthau - Cefas (Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu)

    Eich cyfrifoldeb chi yw bod yn ymwybodol o ddosbarth cyfredol yr ardal gasglu. Gallai'r dosbarth newid yn ystod y cyfnod y bydd ar agor, ac os na fydd canlyniadau samplau yn bodloni gofynion dosbarth C, bydd y gwelyau yn cau ar unwaith. Ymhlith y dulliau a ddefnyddir i hysbysu bod gwelyau wedi'u cau fydd erthygl ar dudalennau'r Môr a Physgodfeydd ar wefan Llywodraeth Cymru.

13. Rhaid i ddeiliaid trwydded fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r "wal hyfforddi" sy'n rhedeg trwy'r aber.

14. Dylai pob cyfranogwr yn y pysgodfeydd, boed yn bysgotwyr, masnachwyr neu staff rheoleiddio, olchi'n drylwyr pob eitem o ddillad allanol a glanhau esgidiau a'r holl offer / gyfarpar a ddefnyddir yn y bysgodfa a chaniatáu amser iddynt sychu. Mae hyn yn cynnwys bagiau cocos a chregyn gleision os ydynt i'w hailddefnyddio mewn pysgodfa arall. Dylid cael gwared â'r holl waddod a deunydd organig.

15. Dylid golchi â phŵer unrhyw gerbydau a ddefnyddir mewn unrhyw bysgodfeydd pysgod cregyn (cocos a chregyn gleision) er mwyn cael gwared ar yr holl waddod a deunydd organig cyn eu defnyddio ar bysgodfeydd eraill. Dylid rhoi sylw penodol i

unrhyw ardaloedd sydd wedi dod i gysylltiad â physgod cregyn neu waddodion rhynglanwol, er enghraifft trwy fagiau cocos neu gregyn gleision sydd wedi'u llwytho, esgidiau, neu ddillad allanol. Dylid golchi â phŵer unrhyw gerbydau sy'n dychwelyd i Gilfach Tywyn o ardaloedd y tu allan cyn iddynt fynd i mewn er mwyn atal cyflwyno pathogenau newydd / ychwanegol a rhywogaethau estron goresgynnol.

16. Cynghorir deiliaid trwyddedau i ddefnyddio cwch sy’n addas ac sydd â’r offer cywir ar gyfer yr amodau, er mwyn sicrhau eu diogelwch.

17. Cynghorir deiliaid trwyddedau i fod ag yswiriant atebolrwydd ar gyfer unrhyw gwch a ddefnyddir i gasglu cocos.

## RHYBUDD ARFAU SYDD HEB FFRWYDRO

**Ymgymerir â'r holl weithgarwch yr ymgymerir ag ef yn unol â'r Awdurdodiad hwn yn gyfan gwbl ar gyfrifoldeb y sawl sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau hynny.**

**Yn benodol, hoffai Llywodraeth Cymru dynnu sylw pawb sy'n bwriadu ymgymryd â gweithgareddau pysgota at y ffaith bod ardal Cilfach Tywyn wedi cael ei defnyddio yn y gorffennol er mwyn profi arfau.**

**Os yw unigolion am weithredu yn yr ardal hon (boed hynny yn unol â'r Awdurdodiad hwn neu fel arall), rhaid i ni eu CYNGHORI'N GRYF i fod yn ofalus ac i gynnal eu hasesiad risg eu hunain cyn casglu neu ymgymryd ag unrhyw weithgarwch arall yn y cyffiniau. Os dewch o hyd i unrhyw arfau sydd heb eu ffrwydro, dylech gysylltu â QinetiQ ar 0800 0921345.**

**Mae cyngor ar arfau sydd heb eu ffrwydro i'w weld yma:**
http://pendine.qinetiq.com/public-safety/unidentified-objects.aspx

# ATODLEN

Yn yr Atodlen hon, mae grŵp o chwech neu wyth ffigur sy'n nodi neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw bwynt yn cynrychioli cyfesurynnau map y pwynt hwnnw ar grid y system gyfeirio genedlaethol a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans ar ei fapiau a'i gynlluniau. Mae'r holl gyfesurynnau lledred a hydred a nodir yn cael eu rhoi mewn graddau, munudau a ffracsiynau degol o funud ac yn gyfesurynnau System Geodetig y Byd 1984.

**Ardal Cilfach Tywyn**
Diffinnir yr ardal fel:


(i) i'r gorllewin, o ben atfor Pier Pen-bre hyd at bwynt mwyaf gogleddol Pwynt Whiteford, sy'n gorwedd rhwng Marc Penllanw Llanwau Cyffredin ar lannau gogleddol a deheuol yr aber yn y drefn honno;

(ii) i'r dwyrain, o ochr atfor y rhan honno o Bont Reilffordd Casllwchwr sydd rhwng Marc Penllanw Llanwau Cyffredin ar y glannau gogledd-orllewinol a de-ddwyreiniol yn y drefn honno a llinell a dynnir o ben de-ddwyreiniol y rhan honno o'r bont reilffordd tua'r de nes ei bod yn cwrdd â Marc Penllanw Llanwau Cyffredin unwaith eto;

(iii) i'r gogledd a'r de, o Farc Penllanw Llanwau Cyffredin ar lannau gogleddol a deheuol yr aber yn y drefn honno rhwng y ffiniau gorllewinol a dwyreiniol;

**Atodiad 1**

**Map**



**Cyfesurynnau**

| **Cilfach Tywyn** |
|---|
| Diffinnir fel: |
| Llinell syth o'r safle: |
| A) SN 4670 0074; 51° 41'.07 Gogledd, 04° 13'.14 Gorllewin. |
| Oddi yno mewn llinell syth i'r safle: |
| B) SS 4670 9903; 51° 40'.124 Gogledd, 04° 13'.09 Gorllewin |

Oddi yno mewn llinell syth i'r safle:

C) SS 4421 9903; 51° 40'.10 Gogledd, 04° 15'.25 Gorllewin

Oddi yno mewn llinell syth i'r safle:

D) SS 4280 9423; 51° 37'.49 Gogledd, 04° 16'.34 Gorllewin

Oddi yno gan ddilyn y llinellau ffin i'r safle:

E) SS 4670 9593; 51° 38'.47 Gogledd, 04° 13'.01 Gorllewin

Oddi yno gan ddilyn y llinellau ffin i'r safle:

F) SS 4924 9444; 51° 37'.71 Gogledd, 04° 10'.77 Gorllewin

Oddi yno gan ddilyn y llinellau ffin i'r safle:

G) SS 5360 9593; 51° 38'.58 Gogledd, 04° 07'.03 Gorllewin

Oddi yno mewn llinell syth i'r safle:

H) SS 5379 9773; 51° 39'.56 Gogledd, 04° 06'.91 Gorllewin

Oddi yno mewn llinell syth i'r safle:

I) SS 5219 9587; 51° 41'.07 Gogledd, 04° 13'.14 Gorllewin

Oddi yno mewn llinell syth i'r safle:

J) SS 4928 9638; 51° 38'.76 Gogledd, 04° 10'.79 Gorllewin

Oddi yno mewn llinell syth i'r safle:

K) SS 4933 9958; 51° 40'.48 Gogledd, 04° 10'.83 Gorllewin

Mae map o'r ardal hon ar gael yn Atodiad 1.

**Atodiad 2**

Map o Gilfach Tywyn yn dangos y llwybr mynediad o Crofty.

